# Cynllun Tymor

# i Rieni Cyfnod Sylfaen




**Dosbarth Meithrin**

Mrs Delyth Dempsey Jones

**Dosbarth Derbyn**

Mrs Laura Davies

**Tymor yr Haf 2025**

**Y Pedwar Diben**

Bydd y Cwricwlwm Newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm yn newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas.

Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn gyfranwyr metrus, creadigol
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn unigolion iach, hyderus

Bydd yr agweddau uchod yn cael sylw blaenllaw yn ein cynlluniau ac rydym yn teimlo'n eiddgar ac yn hyderus y gallwn feithrin y sgiliau hyn yn ein plant.

**I wybod mwy am y Cwricwlwm Newydd, sganiwch y côd isod:**

Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi ebostio athrawes dosbarth eich plentyn.

## Thema: Yn yr Ardd

*Edrychwn ymlaen i addysgu agweddau o'r Cwricwlwm Newydd tra'n mynd ar antur yn yr ardd!*

### Y Chwe Maes Dysgu:



**Iechyd a Lles:** Mae bod yn yr awyr agored yn help mawr i'n iechyd a lles, a byddwn yn manteisio ar hynny wrth ddysgu am ein amgylchedd, bod tu allan, a thrwy dysgu am y creaduriaid bach sydd o'n cwmpas. Yn ystod amseroedd cylch byddwn yn annog y plant i fynegi eu teimladau a'u hemosiynau, yn trafod sut mae pethau yn newid, ac yn trafod sut i barchu ein hamgylchedd a phawb a phopeth byw. Athletau a gemau buarth fydd cynnwys ein gwersi Addysg Gorfforol wrth i ni baratoi ar gyfer Mabolgampau a dysgu cystadleuthau a gemau amrywiol. Bydd hyn yn gyfle i ni ddatblygu gwydnwch a ddysgu sut i ennill a cholli yn barchus.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:** Mae gweld y plant yn datblygu yn eu gallu i deall a siarad y Gymraeg wedi bod yn wych hyd yn hyn, a'r tymor yma byddwn yn parhau i annog y datblygiad yma gan gyflwyno ac ymarfer mwy o batrymau brawddeg defnyddiol, canu caneuon a dysgu geirfa arbennig ar gyfer y thema. Byddem hefyd yn parhau ar ein siwrnai darllen gan ymarfer ein sgiliau clymu synnau at eu gilydd i ddarllen a dysgu darllen geiriau allweddol cyffredin.



Bydd y plant yn parhau i ddatblygu eu sgiliau llawysgrifen a dal pensil wrth i ni ysgrifennu gwahanol ffurfiau i wahanol bwrpasau fel disgrifiad, gwahoddiad i barti, neu i greu llyfr dosbarth. Byddwn yn dysgu sut i ddefnyddio arddodiaid yn gywir, sut i atalnodi a phriflythrennu hefyd wrth ysgrifennu.



**Mathemateg a Rhifedd:** Yn ogystal ag adolygu sgiliau blaenorol a datblygu ar yr hyn rydym wedi ei wneud eisoes, byddwn hefyd yn datblygu ein sgiliau cyfrif mewn camau o 2,5 a 10 a llenwi bylchau, adnabod arian a sgiliau amser. Byddwn hefyd yn datblygu ein sgiliau siap a chymesuredd drwy bod yn greadigol. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i'r plant weithio'n ymarferol, yn drawsgwricwlaidd a gan ddysgu drwy chwarae.

**Y Celfyddydau Mynegiannol:** Byddwn yn dysgu caneuon am greaduriaid bychain ac yn perfformio rap rhifedd y brogaod. Bydd cyfle i ddefnyddio offerynnau i archwilio a chreu synau creaduriaid bychain a byddwn yn defnyddio stori fel symbyliad i greu dawns. Cawn efelychu gwaith arlunwyr enwog fel Monet (Lillypads) a Matisse (The Snail) wrth archwilio'n thema yn ddyfnach a bod yn greadigol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg:** Mae angen help ar Bili Broga i ddysgu am ei gyd-ffrindiau gardd! Byddwn yn chwilota am greaduriaid ac yn dysgu am eu cynefinoedd y tymor hwn- rydyn nin edrych ymlaen yn fawr i weld y penbyliaid yn tyfu yn ein pwll yn yr Ysgol Goedwig a dysgu am eu cylchred bywyd. Byddwn yn coginio "jeli broga" gan ddysgu am sut mae solidau yn gallu newid ffurf, ac yn arbofi gyda dŵr i weld beth sy'n arnofio neu'n suddo.



**Dyniaethau:** Wrth archwilio gwahanol gynefinoedd a lleoliadau, cawn ddysgu am dirwedd a'r ffactorau sydd yn effeithio ar wahanol greaduriaid byw. Hefyd cawn ddysgu sut i drin tir wrth blannu a hau yn ein gardd a dangos gwerthfawrogiad o'r hyn sydd o'n cwmpas gan gymharu a llefydd eraill.